The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Prosiect Solar a Storio Ynni Maen Hir

# Maen Hir Solar and Energy Storage Project

# EN010156

# Lightsource bp

# Log Cyngor Adran 51 / Section 51 Advice Log

# Fersiwn / Version: 30/07/2025

Mae dyletswydd statudol o dan adran 51 (a51) o Ddeddf Cynllunio 2008 i'r Arolygiaeth Gynllunio gofnodi'r cyngor y mae'n ei roi mewn perthynas â chais neu gais posibl, a sicrhau bod hwn ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cofnod o'r cyngor a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd (Lightsource bp) a'i ymgynghorwyr yn ystod y cam cyn ymgeisio. Bydd yn cael ei ddiweddaru gan yr Arolygiaeth ar ôl pob rhyngweithiad gyda'r Ymgeisydd pan ddarparwyd a51. Bydd yr Ymgeisydd bob amser yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gofnod cyngor drafft yr Arolygiaeth cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio'r Log Cyngor hwn fel sail ar gyfer dangos ystyriaeth i gyngor adran 51 yn y cais.

There is a statutory duty under section 51 (s51) of the Planning Act 2008 for the Planning Inspectorate to record the advice that it gives in relation to an application or potential application, and to make this publicly available.

This document comprises a record of the advice that has been provided by the Inspectorate to the Applicant (Lightsource bp) and their consultants during the pre-application stage. It will be updated by the Inspectorate after every interaction with the Applicant during which s51 has been provided. The Applicant will always be given the opportunity to comment on the Inspectorate's draft record of advice before it is published.

The applicant will use this Advice Log as the basis for demonstrating regard to section 51 advice within the application.

| **Prosiect Solar a Storio Ynni Maen Hir / Maen Hir Solar and Energy Storage Project**<br>**s51 Log Cyngor - Mynegai**<br>**s51 Advice Log - Index** | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod**<br>**Date of meeting** | **Trosolwg o'r cyfarfod**<br>**Meeting overview** |
| 28 Hydref 2024<br>28 October 2024 | Sylwadau PINS ar Ddogfen y Rhaglen<br>PINS comments on the Programme Document |
| 26 Tachwedd 2024<br><br><br><br><br>26 November 2024 | Diweddariadau prosiect<br>Ymgynghoriad statudol<br>Diweddariadau rhaglen<br>Ymholiadau gweithdrefnol cyn ymgeisio<br><br>Project updates<br>Statutory consultation<br>Programme updates<br>Pre-application procedural queries |
| 24 Mehefin 2025<br>24 June 2025 | Rhaglen Prosiect wedi'i Diweddaru<br>Diweddariad ar Ddyluniad y Prosiect<br>Ymgynghoriad wedi'i Dargedu a Charreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori<br>Dogfennau Drafft i'w hadolygu<br>Diweddariad cyn-ymgeisio, Traciwr Materion, Datganiad Tir Cyffredin<br><br>Updated Project Programme<br>Project Design Update<br>Targeted Consultation and AoC Milestone<br>Draft Documents for review |

| | |
|---|---|
| | Pre-application update, Issues Tracker, Statement of Common Ground |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

| **Prosiect Solar a Storio Ynni Maen Hir - Llyfrgell Gynghori s51**<br>**Maen Hir Solar and Energy Storage Project - s51 Advice Library** | |
|---|---|
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 28 Hydref 2024**<br>**Meeting date: 28 October 2024** |
| Sylwadau PINS ar Ddogfen y Rhaglen | • Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd sicrhau bod y Ddogfen Rhaglen yn cael ei chyflwyno a'i chynnal ar wefan yr Ymgeisydd;<br>• Mae'r Ddogfen Rhaglen yn nodi bod y Garreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori a dogfennau drafft yn debygol o gael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth ym mis Mai 2025. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu'r rhain ar wahân, gan gyflwyno'r Garreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori yn gyntaf ac aros am sylwadau'r Arolygiaeth cyn cyflwyno dogfennau drafft. Bydd angen dyddiadau mwy pendant ar gyfer cyflwyno'r ddwy, maes o law;<br>• Bydd yr Ymgeisydd yn ymwybodol o'r cyfnod adolygu chwe wythnos ar gyfer dogfennau drafft, a dylai sicrhau bod digon o amser cyn cyflwyno'r cais i roi ystyriaeth i adborth yr Arolygiaeth.<br>• A yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cyhoeddi fersiwn ddwyieithog o'r Ddogfen Rhaglen ar ei wefan? |

| | |
|---|---|
| PINS comments on the Programme Document | • The Applicant must ensure that the Programme Document (PD) is hosted and maintained on the Applicant's website;<br>• The PD specifies that the Adequacy of Consultation Milestone (AoCM) and draft documents are both likely to be submitted to the Inspectorate in May 2025. It would be helpful if these could be provided separately, with the AoCM submitted first and the Inspectorate's comments provided ahead of the submission of draft documents. More precise dates for the submission of both will be required in due course;<br>• The Applicant will be aware of the six week review period for draft documents, and should ensure that there is sufficient time before the submission of the application to have regard to the Inspectorate's feedback.<br>• Is the Applicant intending to publish a bilingual version of the PD on its website? |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 26 Tachwedd 2024**<br>**Meeting date: 26 November 2024** |
| Ymgynghoriad statudol<br><br>Statutory consultation | Nododd yr Arolygiaeth yr adborth manwl ar y broses a lefel yr ymgysylltiad yn ystod yr ymgynghoriad statudol, a chynghorodd ei bod yn bwysig cofnodi hyn yn yr Adroddiad Ymgynghori pan gyflwynir y Cais. Dylid cynnwys manylion ynglŷn â'r gwahaniaeth mewn ymgysylltu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys gwybodaeth am ba ddogfennau ymgynghori a gwybodaeth a oedd ar gael yn ddwyieithog.<br><br>The Inspectorate noted the detailed feedback on the process and level of engagement during the statutory consultation, and advised it is important to ensure this is recorded in the Consultation Report when the Application is submitted. Details of the split in engagement between English and Welsh language should be included, including information on which consultation documents and information were available bilingually. |
| Ymgynghoriad statudol | Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai unrhyw broblemau a gafwyd gael eu cofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori ac yn rhan o'r garreg filltir Digonolrwydd Ymgynghori, ynghyd â gwybodaeth am yr hyn a wnaed i ddatrys y problemau. |

| | |
|---|---|
| Statutory consultation | The Inspectorate advised that where problems were encountered, this should be recorded in the Consultation Report and as part of the Adequacy of Consultation milestone, together with information on what was done to resolve the issues. |
| Dogfen Rhaglen<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Programme document | Nododd yr Arolygiaeth fod yr Ymgeisydd wedi diweddaru'r Ddogfen Rhaglen a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth ym mis Gorffennaf 2024 a'i fod yn bwriadu cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig arall o'r Ddogfen Rhaglen yn gynnar yn y flwyddyn newydd, yn adrodd ar ganlyniadau allweddol yr ymgynghoriad statudol. Cynghorodd yr Arolygiaeth er ei bod yn fodlon i'r fersiwn ddiwygiedig gael ei chyhoeddi, maes o law, y byddai'n ddefnyddiol i'r fersiwn wreiddiol gael ei chyhoeddi ar wefan yr Ymgeisydd. Byddai hyn yn atal dryswch petai aelodau o'r cyhoedd yn darllen y sylwadau a roddwyd gan yr Arolygiaeth, a oedd wedi'u seilio ar y fersiwn a gyflwynwyd yn wreiddiol.<br><br>**Nodyn ôl-gyfarfod:** Mae'r Ymgeisydd yn nodi cyngor yr Arolygiaeth ond mae'n credu y gallai cyhoeddi fersiwn wreiddiol y Ddogfen Rhaglen, dyddiedig mis Gorffennaf 2024, ar ôl i'r ymgynghoriad statudol gau greu dryswch gan nad yw'n adlewyrchu unrhyw rai o ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw. Nid yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cyhoeddi fersiwn wreiddiol y Ddogfen Rhaglen, ond bydd yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r ddogfen sy'n adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad statudol, ar lefel uchel, yn gynnar yn y flwyddyn newydd.<br><br>The Inspectorate advised that while it was happy for the updated version to be published in due course once the Applicant had finished reviewing the required changes, it would be helpful for the original version to be published on the Applicant's website. This would prevent confusion should members of the public read the comments provided by PINS, which were based on the originally submitted version.<br><br>**Post-meeting note:** The Applicant considers publishing the original version would be counter-productive given the changes and consultation that have occurred since, and has confirmed it does not intend to do so. |
| Dogfen Rhaglen | Nododd yr Arolygiaeth fwriad yr Ymgeisydd i sicrhau bod y Ddogfen Rhaglen ar gael yn Gymraeg ar gais, a chynghorodd y dylid nodi'r opsiwn hwn yn glir ar wefan yr Ymgeisydd.<br><br>The Inspectorate noted the Applicant's intention to make the programme document available in Welsh if requested, and |

| | |
|---|---|
| Programme document | advised that this option is made clear on the Applicant's website. |
| Traciwr Materion a'r Prif Faterion Posibl ar gyfer yr Acheilia (PMIE)<br><br>Issues Tracker and Potential Main Issues for the Examination (PMIE) | Cynghorodd yr Arolygiaeth, er mwyn i'r Traciwr Materion fod yn fwyaf defnyddiol, y dylai ganolbwyntio ar y materion hynny sy'n debygol o fod yn arwyddocaol yn ystod yr Archwiliad, yn hytrach na cheisio cyfleu pob manylyn. Eglurodd y bwriedir i'r Traciwr Materion gael ei ddiweddaru a'i rannu yn ystod cam Cyn-ymgeisio'r broses, ac yna y bydd yn bwydo i'r PMIE sydd i'w gyflwyno yn rhan o ddogfennau'r cais.<br><br>The Inspectorate advised that, to be most useful, the Issues Tracker should focus on those issues likely to be significant during the Examination, rather than seeking to capture every detail. It clarified that the Issues Tracker is intended to be updated and shared during the Pre-application stage of the process, and will then feed into the PMIE to be submitted as part of the application documents. |
| Y broses adolygu dogfennau drafft<br><br>Draft document review process | Eglurodd yr Arolygiaeth nad yw'r rhestr o ddogfennau y gellir eu hadolygu a amlinellir yn y prosbectws Cyn-ymgeisio yn orfodol; gall yr Ymgeisydd gyflwyno cynifer neu gyn lleied ohonynt ag y dymunir. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Arolygiaeth na fydd yn rhoi adborth ar ddogfennau y gellir eu hadolygu o dan yr haen manylach, fel y Ddogfen Ymagwedd Ddylunio. Cynghorodd yr Arolygiaeth fod y Ddogfen Ymagwedd Gynllunio yn ddogfen ddefnyddiol iawn i'r Archwiliad ac y gall yr Ymgeisydd gyflwyno fersiwn ddrafft o hyd er gwybodaeth yn unig, ond na roddir adborth arni.<br><br>The Inspectorate clarified that the list of documents that can be reviewed as set out in the Pre-application prospectus is not mandatory; the Applicant can submit as many or as few of them as desired. However, the Inspectorate confirmed that it will not provide feedback on documents that can be reviewed under the enhanced tier, such as the Design Approach Document (DAD). The Inspectorate advised that the DAD is a very useful document for Examination and the Applicant can still submit a draft for information only, but no feedback will be given on it. |
| Y broses adolygu dogfennau drafft | I gael adborth adeiladol, cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r Ymgeisydd gyflwyno'r fersiynau mwyaf cyfredol â phosibl o ddogfennau drafft. Er enghraifft, os cyflwynir Adroddiad Ymgynghori heb fwyafrif ei atodiadau, bydd terfyn ar y cyngor y gall yr Arolygiaeth ei roi. Cynghorodd mai prif ddiben adolygu dogfennau drafft yw lleihau risgiau yn ystod y cam derbyn, er y gall hyn gynnwys rhai elfennau o gyngor wedi'i seilio ar rinweddau, yn enwedig ar y Gorchymyn Caniatâd |

| | |
|---|---|
| | Datblygu (DCO) (a'r Memorandwm Esboniadol). Mae adolygu dogfennau drafft yn caniatáu i'r Arolygiaeth roi cyngor ar safon y dogfennau, unrhyw agweddau y gallai fod angen eu hegluro ac unrhyw hepgoriadau gweithdrefnol cyn cyflwyno. Er enghraifft, byddai'r paramedrau yn y disgrifiad o'r prosiect yn y Datganiad Amgylcheddol drafft yn cael eu hadolygu yn erbyn y paramedrau yn y DCO drafft a, lle bo angen, byddai cyngor yn cael ei roi i sicrhau cysondeb rhwng y ddwy ddogfen.<br><br>Yn ogystal, tynnodd yr Arolygiaeth sylw'r Ymgeisydd at y dudalen gyngor newydd a gyhoeddwyd ar lunio cofrestr ymrwymiadau. Er bod Prosiect Maen Hir eisoes wedi cynnal ymarfer cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol, mae'r cyngor hefyd yn ymwneud â cherrig milltir diweddarach yn y broses cyn-ymgeisio a dylai'r Ymgeisydd ystyried p'un a allai ychwanegu gwerth at y broses o hyd.<br><br>Nododd yr Ymgeisydd y cyngor a dywedodd wrth yr Arolygiaeth y bydd amseriad a chwmpas dogfennau a gyhoeddir i'w hadolygu yn cael eu cynnwys yn y Ddogfen Rhaglen wedi'i diweddaru. |
| Draft document review process | The Inspectorate advised that to obtain constructive feedback, the Applicant should submit the most advanced versions of draft documents possible. For example, if a Consultation Report is submitted without the majority of its appendices, there will be a limit to the advice that the Inspectorate can provide. It advised that the main purpose of a draft document review is to de-risk the acceptance stage, although this can include some elements of merit-based advice, particularly on the DCO (and Explanatory Memorandum). Draft documents review allows the Inspectorate to give advice about the standard of the documentation, any aspects that may need clarification and any procedural omissions prior to submission. For example, the parameters in the draft ES project description chapter would be reviewed against the parameters in the draft DCO and where necessary, advice would be provided to ensure consistency between the two documents.<br><br>The Inspectorate also drew the Applicant's attention to the new advice page published on the production of a commitments register. Although Maen Hir has already undertaken EIA scoping, the advice also relates to later milestones of the pre-application process and the Applicant should consider whether it may still add value to the process. |
| Adolygu'r Dyluniad | Gofynnodd yr Arolygiaeth am gael gwybodaeth am gynnydd ac amserlenni ar gyfer unrhyw adolygiadau dylunio ychwanegol a gynhelir gan Gomisiwn Dylunio Cymru, a |

| | |
|---|---|
| Design Review | chynghorodd y dylai hyn gael ei gofnodi yn y Ddogfen Ymagwedd Gynllunio, gan ddangos esblygiad y dyluniad drwy gydol y cam cyn-ymgeisio.<br><br>The Inspectorate requested to be kept up to date with progress and timescales for any further design reviews undertaken by the Design Commission for Wales, and advised that this be documented in the DAD, demonstrating the design evolution throughout the pre-application stage. |
| Effeithiau cronnol<br><br>Cumulative impacts | Nododd yr Arolygiaeth gynigion ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) Alaw Môn gerllaw a chynghorodd y dylai'r Ymgeisydd fod yn ymwybodol o effeithiau posibl ar gymunedau lleol a chyrff ymgynghori o ran adnoddau, os bydd y prosesau'n gorgyffwrdd. Er efallai na ddisgwylir hyn ar yr adeg hon, cynghorir yr Ymgeisydd i'w adolygu'n barhaus.<br><br>The Inspectorate noted proposals for the Alaw Môn Development of National Significance (DNS) nearby and advised that the Applicant be aware of potential impacts on local communities and consultation bodies in terms of resourcing, if the processes overlap. While this may not be currently expected, the Applicant is advised to keep this under review. |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 24 Mehefin 2025**<br>**Meeting date: 24 June 2025** |
| Rhaglen prosiect wedi'i diweddaru<br>Updated project programme | Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd, os bydd y cais yn cael ei oedi y tu hwnt i'r dyddiad arfaethedig presennol (18 Tachwedd 2025), er mwyn osgoi ei gyflwyno tan yn gynnar yn 2026, y dylai osgoi gadael i'r cyfnod derbyn fynd dros gyfnod y Nadolig (y dyddiad olaf sydd ar gael fyddai 21 Tachwedd 2025). Bydd hyn yn sicrhau bod gan yr Arolygiaeth ddigon o adnoddau a bod awdurdodau lleol yn gallu ymateb i'r garreg filltir digonolrwydd ymgynghori. Gofynnwyd am rybudd ymlaen llaw o gyflwyno dogfennau drafft, gan fod yr Arolygiaeth yn ymwybodol bod mis Awst yn gyfnod allweddol ar gyfer gwyliau staff.<br><br>The Inspectorate advised the applicant, if the application is delayed beyond the current planned date (18 November 2025), to avoid submitting until early 2026, to avoid the acceptance period running over the Festive period (The last available date would be the 21 November 2025). It will ensure the Inspectorate is adequately resourced and ensures local authorities can respond to the adequacy of consultation. Advanced notice of submitting draft documents was |

| | |
|---|---|
| | requested, as the Inspectorate is aware that August is a key period for staff holidays. |
| Diweddariad ar ddyluniad y prosiect<br><br>Project design update | Cydnabu'r Arolygiaeth fod sawl opsiwn ar gyfer llwybr y cebl a chynghorodd y bydd angen i rai o'r rhain gael eu datblygu ymhellach yn ystod y broses. Argymhellodd yr Arolygiaeth hefyd y dylai'r ymgeisydd geisio lleihau'r ardal yr effeithir arni i'r eithaf, lle bynnag y bo'n bosibl, a chyfiawnhau'r dull a ddewiswyd yn glir yn nogfennau'r cais.<br><br>The Inspectorate acknowledged that there are multiple options for cable routeing and advised that some of these will require further development during the process. The Inspectorate also recommended that the applicant aim to minimise the area affected wherever possible, and clearly justify the chosen approach within the application documents. |
| Ymgynghoriad wedi'i dargedu a Charreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori<br><br>Targeted consultation and Adequacy of Consultation Milestone | Nododd yr Arolygiaeth y byddai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Garreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori yn heriol oherwydd bod yr ymgynghoriad arfaethedig wedi'i amseru ar yr un pryd. Byddai'n well gan yr Arolygiaeth pe byddai'r gorgyffyrddiad yn cael ei osgoi os oes modd, fel na fyddai'n effeithio ar effaith a manylion adborth. Cynghorodd yr Arolygiaeth na ddylai'r ddogfen gryno ddyblygu'r Adroddiad Ymgynghori, ac y dylai fod yn ddatganiad byr ynglŷn ag elfennau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd.<br><br>The Inspectorate noted that the submission deadline for the Adequacy of Consultation Milestone would be challenging to meet given the simultaneous timing of the planned consultation. It would be the Inspectorate's preference to avoid the overlap if possible, so that the impact and the detail of feedback is unaffected. The Inspectorate advised that the summary document should not intend to be a duplicate of the Consultation Report, and that it should be a short statement of the elements of consultation which have been carried out. |
| Dogfennau drafft i'w hadolygu<br><br>Draft documents for review | Rhoddodd yr ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth ei bod yn debygol y byddai'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO), Cynlluniau Gwaith a Thir enghreifftiol drafft, a'r disgrifiad o'r prosiect yn y Datganiad Amgylcheddol draft, yn cael eu cyflwyno ym mis Awst 2025. Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai ystyried cyflwyno Adroddiad Ymgynghori wedi'i ddatblygu'n dda, a chynghorodd hefyd y dylai gyflwyno Llyfr Cyfeirio drafft, i'w adolygu ar y cyd â'r archwiliadau cynlluniau tir.<br><br>The applicant informed the Inspectorate that the draft Development Consent Order (dDCO), draft sample Works and Land Plans, and the draft Environmental Statement project description would be likely be submitted in August 2025. The Inspectorate advised to consider submitting a well- |

| | |
|---|---|
| | developed Consultation Report, and also advised to submit a draft Book of Reference, to review in conjunction with the land plans checks. |
| Diweddariad cyn-ymgeisio, Traciwr Materion, Datganiadau Tir Cyffredin<br><br>Pre-application update, Issues Tracker, Statements of Common Ground | Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i ystyried Datganiadau Tir Cyffredin gyda'r Ymddiriedolaeth Natur ac RSPB Cymru.<br><br>Croesawodd yr Arolygiaeth faint o fanylion a gynhwysywyd yn y Traciwr Materion, a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn ddiweddar. Esboniodd yr ymgeisydd y dylai ambell fater gael ei ddatrys trwy'r rownd nesaf o esblygiad y dyluniad a fyddai, yn ei dro, yn golygu y gellir llunio rhestr fwy penodol ar gyfer y fersiwn nesaf. Holodd yr Arolygiaeth a yw'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) yn ymdrin â materion ôl-benderfyniad. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi negodi PPA gyda'r awdurdod cynhaliol hyd at gyflwyno'r cais, ac y bydd cytundeb newydd yn cael ei negodi yn ystod camau nesaf y broses gynllunio.<br><br>Holodd yr Arolygiaeth a yw'r dDCO yn cynnwys gofyniad i'r awdurdod cynhaliol gymeradwyo'r cynllun rheoli diogelwch batris ar gyfer y System Batris Storio Ynni (BESS), gan nodi Parc Solar Cleve Hill fel enghraifft ddiweddar. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn bwriadu ymgynghori â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ynglŷn â'r mater hwn.<br><br>The Inspectorate advised the applicant to consider Statements of Common Ground with the Wildlife Trust and RSPB Cymru.<br><br>The Inspectorate welcomed the level of detail set out in the Issues Tracker, recently submitted by the applicant. The applicant explained that a few issues should be resolved through the next round of design evolution, in turn enabling a more focused list for the next iteration. The Inspectorate queried whether the Planning Performance Agreement (PPA) covers post-decision matters. The applicant confirmed it has negotiated a PPA with the host authority up until application submission, and that a new agreement will be negotiated during the next stages of the planning process.<br><br>The Inspectorate queried whether the dDCO contains a requirement for the host authority to sign off the BESS battery safety management plan, noting the Cleve Hill Solar Park as a recent example. The applicant confirmed it intends to consult the North Wales Fire and Rescue Service on this matter. |